
Mae gen i'r hawl i chwarae, bob dydd
I have the right to Play, every day
STOP JENKINS SHOP
BANC BANK
Chwarae Cymru
Play Wales
Sdwff chwarae
Play Stuff

## Chwarae Cymru yw'r elusen dros chwarae plant yng Nghymru. Rydym yn cefnogi hawl plant i chwarae.

Mae plant ac arddegwyr yn dweud wrthym eu bod eisiau mwy o gyfleoedd i chwarae'r tu allan gyda'u ffrindiau. Mae chwarae'n rhan hanfodol o blentyndod iach a hapus. Mae'n bwysig bod oedolion yn gwneud yn siŵr bod gan blant fannau da a digon o amser i chwarae.

Mae gan bob plentyn hawl i chwarae. Mae hyn yn cael ei gydnabod yn Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Rydym wedi creu'r poster hwn i atgoffa pawb pa mor bwysig yw chwarae i bob plentyn, bob dydd. Mae pob oedolyn angen gwneud yn siŵr bod plant yn cael amser, lle a chefnogaeth i chwarae gartref, mewn gofal plant, mewn ysgolion ac yn eu cymdogaethau.

Bydd Chwarae Cymru'n gweithio'n galed bob amser i wneud yn siŵr bod oedolion yn gwybod pa mor bwysig yw chwarae i bob plentyn. Rydym yn gobeithio y bydd y poster hwn yn dy helpu di i siarad am chwarae, pam ei fod yn bwysig a sut y gallwn ni gyd weithio gyda'n gilydd i wneud Cymru'n wlad chwarae-gyfeillgar.

### *Plentyndod Chwareus*

Os wyt ti a dy deulu'n chwilio am ysbrydoliaeth ar gyfer chwarae gartref ac allan yn dy gymdogaeth, edrych ar wefan *Plentyndod Chwareus*. Mae'n llawn o syniadau chwarae syml a rhad ar gyfer plant o bob oed – a chynghorion i oedolion wneud yn siŵr dy fod yn cael digon o gyfleoedd i chwarae, bob dydd.

**www.plentyndodchwareus.cymru**

## Play Wales is the charity for children's play in Wales. We champion children's right to play.

Children and teenagers tell us they want more opportunities to play outside with their friends. Playing is a crucial part of a healthy and happy childhood. It is important that adults make sure that children have good spaces and plenty of time to play.

Every child has the right to play. This is recognised in Article 31 of the United Nations Convention on the Rights of the Child (UNCRC). We have created this poster to remind everyone how important playing is to all children, every day. All adults need to make sure that children have time, space and support to play at home, in childcare, in schools and in their neighbourhoods.

Play Wales will always work hard to make sure that adults know how important play is to all children. We hope this poster helps you to talk about play, why it is important and how we can all work together to make Wales a play-friendly place.

### *Playful Childhoods*

If you and your family are looking for inspiration for playing at home and out in your neighbourhood, have a look at our *Playful Childhoods* website. It's full of simple and low-cost play ideas for children of all ages – and tips for adults for making sure you have plenty of chances to play, every day.

**www.playfulchildhoods.wales**

Plentyndod Chwareus | Chwarae Cymru Play Wales | Playful Childhoods